# COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI A GYNHALIWYD HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB AR DYDD IAU, 2 HYDREF 2025 10:00

Presennol

Y Cynghorydd RM Granville – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| A R Berrow | S Easterbrook | S J Griffiths | GC Haines |
| D T Harrison | M L Hughes | D M Hughes | M R John |

Presennol – O Bell

| | | | |
|---|---|---|---|
| RJ Collins | W J Kendall | J E Pratt | A Wathan |
| R Williams | | | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Rhodri Davies | Rheolwr Datblygu a Rheoli Adeiladu |
| Gillian Dawson | Cyfreithiwr - Cynllunio |
| Dion Douglas | Prif Swyddog Cynllunio |
| Craig Flower | Arweinydd Tim Cymorth Thechnegol |
| Steven Jenkins | Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu |
| Robert Morgan | Uwch Swyddog Rheoli Datblygu Trafnidiaeth |
| Louis Pannell | Uwch Swyddog Polisi Cynllunio Strategol |
| Jonathan Parsons | Rheolwr Grŵp Datblygu |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Adam Provoost | Uwch Swyddog Cynllunio Datblygu |
| Oscar Roberts | Business Administrative Apprentice - Democratic Services |
| Philip Thomas | Prif Swyddog Cynllunio |
| Leigh Tuck | Swyddog Rheoli Datblygu Trafnidiaeth |

## 165. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Y Cyng Heather Griffiths<br>Y Cyng Johanna Llewellyn- Hopkins |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 02 Hydref 2025 |

## 166. Datganiadau o Fuddiannau

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Fe wnaeth y Cyng Della Hughes ddatgan buddiant rhagfarnus yn eitem 10 ar yr agenda a gadawodd y cyfarfod cyn yr eitem hon.<br>Fe wnaeth y Cyng Alan Wathan ddatgan buddiant personol yn eitem 8 ar yr agenda fel aelod o Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr.<br>Fe wnaeth y Cyng Richard Collins ddatgan buddiant personol yn eitem 8 ar yr agenda fel aelod o Gyngor Tref Maesteg. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 02 Hydref 2025 |

## 167. Ymweliadau Safle

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD: Cytuno ar Ddydd Mercher y 12fed o Dachwedd 2025 ar gyfer unrhyw archwiliadau safle fyddai'n codi yn ystod y cyfarfod neu a gâi eu nodi gan y Cadeirydd cyn y Pwyllgor nesaf. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 02 Hydref 2025 |

## 168. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu dyddiedig 10 Gorffennaf 2025 fel cofnod gwir a chywir. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 02 Hydref 2025 |

**169. Siaradwyr Cyhoeddus**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Roedd y siaradwr cyhoeddus canlynol wedi cofrestru i siarad yn y cyfarfod heddiw<br><br>Cais Cynllunio P/25/43/FUL and P/25/41/FUL - Kathryn Jones – Darllenwyd datganiad gan y Swyddog Cyfreithiol. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 02 Hydref 2025 |

**170. Taflen Ddiwygiadau**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD: Bod y Cadeirydd yn derbyn Taflen Ddiwygiadau y Pwyllgor Rheoli Datblygu fel eitem frys, yn unol â Rhan 4 (paragraff 4) o Reolau Gweithdrefn y Cyngor. Roedd hyn yn galluogi'r Pwyllgor i ystyried unrhyw addasiadau angenrheidiol i Adroddiad y Pwyllgor, er mwyn cymryd i ystyriaeth unrhyw sylwadau a newidiadau hwyr yr oedd angen eu cynnwys. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 02 Hydref 2025 |

**171. Canllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn nodi Canllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu fel y'u dangoswyd yn adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 02 Hydref 2025 |

**172. P/25/247/HYB - Hen Ffatri Peiriannau Ford, Ystâd Ddiwydiannol Waterton, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3PJ**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD: (i) Bod y Pwyllgor yn mynegi'n ffurfiol ei ddewis i bob cais materion a gedwir yn ôl yn y dyfodol, fyddai'n gysylltiedig â'r caniatâd amlinellol hwn, gael ei osod |

| | |
|---|---|
| | gerbron y Pwyllgor Rheoli Datblygu i'w benderfynu.<br>(ii) Cymeradwyo'r cais hybrid, yn amodol ar yr amodau a'r gwelliannau a nodwyd yn adroddiad y swyddog a'r daflen gwelliannau.<br>**Cynnig:**<br>Cais cynllunio hybrid, yn gofyn am ganiatâd cynllunio amlinellol ar gyfer datblygu campws canolfan ddata (Dosbarth Defnydd B8) gan gynnwys paratoi'r safle, adeiladau newydd ac isbwerdai trydanol a'r mynedfeydd, seilwaith, mannau gwag, cyfleusterau, tirlunio, nodweddion draenio dŵr wyneb a gwaith arall y bydd ei angen i adeiladu a gwasanaethu'r campws; a chaniatâd cynllunio llawn ar gyfer y ganolfan ddata gyntaf a'r holl waith cysylltiedig (Datblygiad EIA) |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 02 Hydref 2025 |

**173. P/25/43/FUL – Tir yn Cynghordy 1.6 cilometr i'r dwyrain o Faesteg a 2 cilometr i'r gorllewin o Bont-y-Rhyl**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD: Caniatáu'r cais uchod, yn amodol ar yr amodau oedd wedi eu cynnwys yn adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau ac amod ychwanegol yn gofyn am friff gwylio archeolegol yn ystod gwaith ar y ddaear.<br><br>**Cynnig:**<br>Gosod mast anemomedr, 90 metr o uchder, am gyfnod dros dro o hyd at dair blynedd. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 02 Hydref 2025 |

**174. P/25/41/FUL – Tir yn Pwll yr Iwrch (1.7 cilometr i'r dwyrain o Faesteg a 3 cilometr i'r gorllewin o Flaengarw) Maesteg**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD: Caniatáu'r cais uchod, yn amodol ar yr amodau oedd wedi eu cynnwys yn adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau.<br><br>**Cynnig:**<br>Gosod mast anemomedr, 90 metr o uchder, am gyfnod dros dro o hyd at dair blynedd. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 02 Hydref 2025 |

## 175. P/25/306/FUL - 18 Oak Tree Drive, Newton, Porthcawl, CF36 5BQ

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD: Caniatáu'r cais uchod, yn amodol ar yr amodau oedd wedi eu cynnwys yn adroddiad y swyddog a dileu amod 3 yn ymwneud â ffenestr gyda gwydr aneglur fel y cytunwyd.<br>**Cynnig:**<br>Estyniad dau lawr i'r ochr, cysylltiedig â thalcen to estyniad un llawr yn y cefn, a phorth ffrynt newydd |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 02 Hydref 2025 |

## 176. Apeliadau

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD: (1) Nodi'r apeliadau a dderbyniwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor, fel y dangoswyd yn adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau.<br><br>(2) Bod yr Arolygydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru i benderfynu ar yr apeliadau canlynol wedi cyfarwyddo eu bod yn cael eu GWRTHOD:-<br><br>Rhif yr Apêl – 2038 – Testun yr Apêl - Estyniad Un Llawr i'r Cefn a'r Ochr, Ffenestr Dormer yn y Cefn gyda 2 Falconi Juliet, Newidiadau i Grib y To a'r Porth (Rhannol Ôl-weithredol)103 Heol Las Gogledd Corneli |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 02 Hydref 2025 |

## 177. Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft ar gyfer Cyfleusterau Hamdden Awyr Agored

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Polisi Cynllunio Strategol adroddiad oedd yn rhoi'r wybodaeth ganlynol:<br><br>• Hysbysu'r Pwyllgor Rheoli Datblygu am ganlyniad yr ymarferiad ymgynghori cyhoeddus ar |

| | |
|---|---|
| | ddogfen y Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft (**CCA**) ar gyfer Cyfleusterau Hamdden Awyr Agored.<br><br>• Hysbysu'r Pwyllgor Rheoli Datblygu am y bwriad i gyflwyno'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Cyfleusterau Hamdden Awyr Agored (Atodiad 1) gyda rhai newidiadau bychain, yn dilyn derbyn cymeradwyaeth y Cabinet, i'r Cyngor i ofyn am ei fabwysiadu er mwyn cefnogi'r Polisïau Cyfleusterau Hamdden Awyr Agored yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd a fabwysiadwyd (CDLl Newydd, Mawrth 2024).<br><br>Yn dilyn ymgynghoriad 6 wythnos, cafodd 2 newid eu cynnwys yn y ddogfen CCA newydd.<br><br>• *Rhoi cyfeiriad at y cyhoeddiad 'Including Disabled Children in Play Provision Position Statement' gan y 'Play Safety Forum' dan y pennawd 'Anghenion Cymunedol Lleol a Hygyrchedd' yn Adran 7.0 o Dylunio Cyfleusterau Hamdden Awyr Agored y CCA drafft.*<br><br>• *Dolen y we wedi ei diweddaru i ddogfen 'Play Wales', 'Creating Accessible Play Spaces toolkit' dan y pennawd 'Design Guidance by Outdoor Recreation Facility Typology' yn Adran 7.0 o Dylunio Cyfleusterau Hamdden Awyr Agored y CCA drafft.*<br><br>Codwyd y pwyntiau canlynol yn dilyn cyflwyniad y Swyddog:<br><br>• Cwestiwn penodol am anghysondeb ymddangosiadol yn **Nhabl 2** y canllawiau, ynghylch yr angen am "Man Lleol i Chwarae" ar gyfer datblygiadau tai o faint gwahanol. Eglurodd y swyddog fod hyn oherwydd darpariaeth ar raddfa symudol ac y câi'r tabl ei wneud yn gliriach.<br><br>• Sylw yn mynegi siom oherwydd nifer fechan yr ymatebion gan y cyhoedd (pedwar yn unig) i'r ymgynghoriad.<br><br>• Diolchwyd i'r swyddogion am gynhyrchu adroddiad trwyadl yr oedd ei wir angen.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Nodi cynnwys y Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Cyfleusterau Hamdden Awyr Agored. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 02 Hydref 2025 |

## 178. Adroddiad Monitro Blynyddol

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Polisi Cynllunio Strategol adroddiad ar ganfyddiadau allweddol Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) 2025 (Atodiad 1) y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (**CDLl Newydd**), cyn cyflwyno'r AMB i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2025.<br>Dywedodd fod yr AMB yn rhoi asesiad manwl o gynnydd yn erbyn y 36 dangosydd monitro, yn cwmpasu meysydd polisi allweddol y CDLl Newydd. Roedd y canfyddiadau allweddol wedi eu hegluro yn adran 3 yr adroddiad.<br><br>PENDERFYNWYD: Nodi cynnwys yr Adroddiad Monitro Blynyddol. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 02 Hydref 2025 |

## 179. Cofnod Hyfforddiant

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD: Nodi adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau oedd yn hysbysu'r Aelodau am y mentrau hyfforddi oedd i ddod. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 02 Hydref 2025 |

## 180. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Nid oedd dim eitemau brys |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 02 Hydref 2025 |

Er mwyn gwylio mwy o'r ddadl a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am:12:00